| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Gweithiwr Cefnogi Anabledd Dysgu |
| Cyfarwyddiaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Yn atebol i'r | Rheolwr Cefnogi |
| Lleoliad | Cymuned |
| Cyfeirnod Swydd / Rhif Adnabod | |

**Pwrpas y Swydd**

Cefnogi unigolion ag anableddau dysgu i fyw bywydau boddhaus yn ystod eu hamser yn y cartref seibiant, gan hyrwyddo annibyniaeth a dewis yn yr holl weithgareddau dyddiol.

Mae'r swydd yn cynnig ystod o gyfleoedd i staff weithio mewn lleoliadau cymunedol, gan fynd ar drywydd cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

Mae'r gwasanaeth Byw â Chymorth yn rhoi cefnogaeth i bobl 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

**Prif Gyfrifoldebau**

Gweithredu mewn modd sy'n parchu urddas pobl ag anableddau dysgu

Cefnogi unigolion gyda'u harferion beunyddiol, gan gynnwys gofal personol, gan hyrwyddo annibyniaeth a dewis bob amser.

Cefnogi unigolion, gan ddilyn eu cynllun cefnogi personol, i gyflawni eu nodau a'u canlyniadau.

Cefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn eu harferion dyddiol, gan gynnwys cefnogaeth gyda gofal personol.

Cynnal perthynas ag unigolion sy'n cydnabod eu hawliau fel dinasyddion cyfartal, a chynorthwyo wrth arfer yr hawliau hynny ym mhob sefyllfa ac amgylchiadau perthnasol.

Cynorthwyo a chynghori unigolion ar gynnal gweithgaredd ac edrychiad priodol i oedran a diwylliant bob amser.

Cefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau byw dyddiol, gan gynnwys tasgau yn y cartref fel coginio, siopa, glanhau, cynnal a chadw'r cartref a'r ardd, cyllidebu ac ati.

Cymryd rhan mewn system o gadw cofnodion gan gynnwys yn benodol cofnodion gwariant pryd bynnag bo hynny'n briodol neu lle nodir hynny gan adran archwilio'r Cyngor Sir.

Cynorthwyo i ddiwallu anghenion adloniant a hamdden unigolion i gynnwys cymryd rhan mewn gwyliau a thripiau pan fo angen

Cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi staff pryd bynnag y bydd angen.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi unigolion 24 awr y diwrnod, 365 diwrnod y flwyddyn ac felly mae angen bod yn hyblyg a gweithio oriau anghymdeithasol, gan gynnwys ar benwythnosau yn rheolaidd a chysgu drosodd pan fo angen.

| **Goruchwylio / Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim. |
| **Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd<br>Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'i defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol. | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Cymhwyster Iechyd a Gofal Lefel 2 a/neu 3 cydnabyddedig neu barodrwydd i ennill cymhwyster o'r fath i lefel sy'n briodol i'r rôl. | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Dealltwriaeth dda o anghenion pobl ag anableddau dysgu, nam ar y synhwyrau neu broblemau iechyd meddwl / dementia. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Gallu datblygu ac adeiladu perthnasau gyda phobl gan ymateb yn holistaidd i anghenion unigolion. | Dymunol | Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Gallu adeiladu perthnasau positif gyda'r bobl y byddwn yn eu cefnogi. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Sgiliau cadw cofnodion a chyfathrebu da. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Deall pwysigrwydd gweithio fel tîm. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Yn gyfeillgar, yn gynnes, yn frwdfrydig ac yn sensitif i anghenion eraill. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Gallu ysgogi eich hun i gymryd cyfrifoldeb personol i ddarparu gofal a chefnogaeth o safon uchel. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu siarad Cymraeg. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad personol parhaus. | Hanfodol | Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| **Y Cwsmer yn Gyntaf:** | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o safon uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | | |
| **Gweithio'n Ddoethach:**<br>Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn Partneriaeth**<br>Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:**<br>Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Newid:**<br>Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy feddwl am syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:**<br>Arwain a chymell eich hunan ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |